

## Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2022

**23/5/2022**

**Presennol:** Geraint Roberts (Cadeirydd), Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Emyr Jones, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams

Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd ) Lis Puw (Clerc)

1. Arwyddodd y Cynghorwyr y Datganiad Derbyn Swydd a'r Cod Ymddygiad.
2. Cwblhawyd y Cofrestr Buddiannau Cynghorwyr.
3. Derbyniwyd gwybodaeth am yr angen i gynnal cyfarfodydd hybrid.
4. Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol ac yn arbennig Penderfyniad 40.
5. Nodwyd derbyn Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2021.
6. Etholwyd Geraint Roberts yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2022-23.
7. Etholwyd Clwyd Davies yn Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2022-23.
8. Enwebwyd Eleri Jones fel cynrychiolydd i gyfarfodydd ardal Un Llais Cymru.
9. Enwebu Tyly Roberts a Dafydd Williams fel cynrychiolwyr ar Bartneriaeth Penllyn.
10. Adolygwyd a chadarnhawyd Polisiâu'r Cyngor.
11. Adolygwyd rhestr o eiddo'r Cyngor.
12. Gohiriwyd ystyried Adroddiad yr Archwilydd Mewnol ar gyfer 2020-21 gan nad oedd wedi dod i law. Cymeradwywyd y Ffurflen diwedd blwyddyn 2021-22 i'w hanfon at yr Archwilydd Mewnol.
13. Cytunwyd nad yw Cyngor Cymuned Llangywer yn gymwys i wneud cais ar gyfer Pŵer Cyffredinol o Gymhwysedd.
14. Penodwyd dyddiadau cyfarfod ar gyfer 2022-23 :

23/5/22 Cyfarfod Blynyddol

13/6/22 (neu pan fydd y ffurflen wedi dychwelyd – Zoom yn bosib)

12/9/22

7/11/22

9/1/23

13/3/23

8/5/23 Cyfarfod Blynyddol